
AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Synod Cymru

Rhifyn 212 Ebrill – Mai 2018

# Gwyliedydd



*Nid yw ef yma; y mae wedi ei gyfodi.*

# “Dan Gaead?”

## *gan y Canon Idris Thomas*

YN UN O’M HEGLWYSI PAN oeddwn yn offeiriad plwyf, gosodwyd llwybr newydd un haf o gwmpas rhan o’r addoldy. Pridd oedd yno gynt a phob gwanwyn tyfai yn y llecyn hwn gnwd da o’r lili wen fach. Roeddwn i, fel yr aelodau oll, yn teimlo braidd yn euog: roeddem yn siŵr ein bod wedi ffarwelio â hwy am byth. Bob blwyddyn byddem fel addolwyr yn codi ein calonnau o weld y lili wen fach yn ein cyfarch yn niferus gerllaw’r eglwys, oherwydd gwyddem fod tymor y bywyd newydd ym myd natur rownd y gornel. Roedd geiriau fforman y gwaith fel halen ar friw i ni. “Thyfith na ddim byd drwy’r defnydd newydd, trwchus hwn, byth,” oedd ei eiriau digywilydd o fostfawr.

Y flwyddyn wedyn, ar ddechrau mis Chwefror, plygais ar fy nghwrcwd ar y llwybr ac wele, wedi ymwthio yn eiddil drwy’r cyfan, dyna lle roedd y lili wen fach. Profwyd Mr Fforman yn anghywir! Ac nid ef fyddai’r olaf i ddarogan na allai blodyn mor eiddil fyth ymwthio drwy’r cyfan. Pam y gwnaeth blodeuyn eiddil, mewn sefyllfa a edrychai yn amhosibl, dyfu a dod i olau dydd? Un eglurhad sydd, un gair sydd, a hwnnw yw BYWYD. Lle bynnag y bo bywyd, y mae nerth sy’n dychryn rhywun. Cyffelybodd Cynan nerth y lili wen fach i nerth syfrdanol y Pasg. “Wele’r eirlysiau tlws,” meddai yn ei bennill adnabyddus –



‘Oll yn eu gynau gwynion
Ac ar eu newydd wedd
Yn debyg idd eu Harglwydd
Yn dod i’r lan o’r bedd’.

Ni lwyddwyd i gladdu’r Atgyfodiad ar fore’r Pasg. Ei ddienyddio ar y groes a’i gladdu o’r golwg am byth oedd y bwriad. Ond “ynddo Ef yr oedd bywyd”. Ni fedrwn gadw’r Gwanwyn tymhorol dan gaead, ac ni fedrwn chwaith gadw Gwanwyn Duw sef y Pasg dan gaead. Pobl y Pasg ydym ni. Un tro gofynnais i blant un o ysgolion fy mhlwyf, yn eu gwasanaeth Pasg, “Beth ddigwyddodd ar Sul y Pasg?”. Aeth llaw merch fach i fyny ac meddai, “Iesu Grist ym mhob man”. Nid oes gwell diffiniad na hwn o’r Pasg a diolch amdano o enau plentyn. Ni welwn y Crist marw yn unlle, ond mae’r Crist byw i’w weld ymhob man, yng nghalonnau ac wynebau y rhai sy’n credu ynddo. O ie, rhag i mi anghofio, ymwthio i fyny trwy’r llwybr eleni eto o amgylch yr Eglwys fu hanes y lili wen fach.



**Gweddi ar gyfer y Sulgwyn (20 Mai 2018)**
Dduw graslon, wrth i dy bobl ddod ynghyd
i ddathlu dyfodiad dy Ysbryd
mewn gwahanol ieithoedd a gwahanol ddiwylliannau,
llefara â ni yn nhafodau Pentecost,
gyda thynerwch colomen
ac egni aflonydd fflamau byw.
Llefara heddwch i’r sawl sy’n dioddef effeithiau rhyfel
ac yn ofni trais.
Llefara ryddid i’r sawl sydd mewn carchar
a’r sawl sydd wedi eu caethiwo gan ddibyniaeth.
Llefara obaith i’r sawl sydd yn dioddef anghyfiawnder,
i’r sawl sydd wedi eu hecsbloetio.
Llefara faddeuant i’r sawl sy’n cael eu poeni gan euogrwydd,
a’r sawl sy’n dyheu am ddechrau eto.
Llefara anogaeth i’r sawl sy’n ei chael yn anodd yn ariannol,
i’r sawl sydd wedi ymlâdd.
Llefara ddoethineb i’th Eglwys
ac i bawb mewn safle o ddylanwad.
Llefara iachâd i bawb sy’n dioddef.
Llefara gariad i bob un sy’n teimlo’n amddifad o gariad,
y sawl sydd wedi eu bradychu.
Llefara atgyfodiad i’r holl bobloedd a’r holl gread.
Llefara gysur i bob un sy’n galaru.
**Amen.**

[atgynhyrchir trwy garedigrwydd *ROOTS for Churches*]

# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Pasg Hapus i bawb! Fel y mae'r cyfarchiad traddodiadol yn dweud, "Halelwia! Atgyfododd Crist! Atgyfododd yn wir! Halelwia!" Os ydych chi'n darllen eich copi o'r *Gwyliedydd* ar Sul y Pasg eleni, sef 1af Ebrill, dydy hynny ddim yn Ffŵl Ebrill! Dyna beth rydym yn ei ddathlu – buddugoliaeth Iesu dros farwolaeth a distryw, a rhodd Duw o fywyd yn ei holl gyflawnder, efo maddeuant a dechreuad newydd i bawb. Mae'n swnio fel Ffŵl Ebrill – rhywun yn atgyfodi o'r meirw. Ond dyna ein ffydd, ac mae miliynau o bobl dros y canrifoedd a thrwy'r byd i gyd heddiw yn gallu tystiolaethu i beth mae'n ei olygu iddynt ac o ran sut maen nhw'n ceisio byw eu bywydau. Yn dilyn cyfnod dwys o baratoadau yn ystod tymor y Grawys, mae'n bryd mwynhau tymor y Pasg gan lawenhau a dathlu beth mae Duw yng Nghrist wedi'i wneud er ein mwyn. Felly, Pasg Hapus i chi!

Dwi wrth fy modd efo'r tymor hwn, ei lawenydd a'i ymdeimlad o ddechreuad newydd. Mae'r Pasg yn dymor gobaith, a dyn a ŵyr, mae ar ein byd angen gobaith. Ond mae gobaith y Pasg yn dod nid yn unig oherwydd digwyddiadau mawr y dydd ei hunan, yr holl flynyddoedd yn ôl yn Jerwsalem, ond hefyd yn sgil yr hyn a ddigwyddodd o ganlyniad i atgyfodiad Iesu. Cyn iddo farw, addawodd Iesu i'w ddisgyblion rodd yr Eiriolwr, yr Ysbryd Glân, ei bresenoldeb efo nhw – efo ni! – am byth (Ioan 14: 16-17). Felly, yn dilyn tymor y Pasg, byddwn yn dathlu'r Pentecost a dyfodiad yr Ysbryd Glân at ddisgyblion ofnus, dryslyd Iesu, gan newid eu bywydau nhw, a bywyd y byd, yn llwyr. Darllenwn am y digwyddiad hwn ar ddechrau Llyfr yr Actau.

Mae Llyfr yr Actau'n sôn am yr Ysbryd Glân yn dod fel "gwynt grymus yn rhuthro" ac fel "tafodau fel o dân" (Actau 2: 2-3). Mae'r delweddau hyn yn werth myfyrio arnynt. Ym medydd Iesu, disgynnodd yr Ysbryd arno "fel colomen" (Marc 1: 10), a soniodd Iesu ei hunan am yr Ysbryd Glân fel yr "Eiriolwr". Mae'r delweddau tyner, addfwyn hyn yn disgrifio rhywbeth hollol wahanol i natur yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost! Mae gwynt grymus yn gallu codi ofn, yn ogystal â'ch llonni a'ch sirioli chi, ac fe ŵyr pawb pa mor beryglus y gall tân fod, er ei fod hefyd yn ddefnyddiol, yn cynhesu ac yn cysuro. Wrth i ni ystyried y delweddau hyn, sylweddolwn nad yw presenoldeb yr Ysbryd Glân bob amser yn hawdd. Nid yw'r bywyd Cristnogol bob amser yn teimlo'n ddiogel a sicr a chysurus, chwaith. Mae gennym sicrwydd yn Nuw na all dim byd ei siglo, ond wrth i ni ddilyn Iesu, ddylem ni ddim synnu gormod os byddwn yn teimlo'n anesmwyth a hyd yn oed yn ofnus weithiau – efallai mai presenoldeb yr Ysbryd Glân yw hynny!

Mae llawer ohonom yn teimlo'n anesmwyth a hyd yn oed yn ofnus, efallai, yn eglwysi Cymru heddiw, ac yn wir, trwy Brydain i gyd. Mae'n anodd. Mae capeli'n cau; mae prinder gweinidogion, pregethwyr ac arweinyddion; gwyddom fod angen mawr ymhlith ein pobl i glywed y newyddion da, ond gall fod yn anodd cyfathrebu'n effeithiol mewn byd technolegol a soffistigedig sy'n newid mor gyflym. Yng Nghymru, mae gennym ni her (a braint!) ychwanegol oherwydd ein galwad arbennig i wasanaethu gwlad ddwyieithog: mae ar bawb angen clywed yr efengyl yn eu mamiaith. Rydym yn byw mewn cyfnod o newid enfawr, yn ddi-os, ac mae'n rhaid gofyn, ai'r Ysbryd Glân sydd ar waith yn troi pethau ben i waered, gan beri inni sylweddoli bod angen inni ailfeddwl? Neu hyd yn oed yn ein gyrru ni allan i'r anialwch fel modd i baratoi at rywbeth newydd, fel y gyrrodd yr Ysbryd Iesu ymaith i'r anialwch ar ôl ei fedydd a chyn cychwyn ar ei weinidogaeth (Marc 1: 12) – neu beth? Dwn i ddim, ond clywais ddigon o bobl yn dyfalu ai rhywbeth felly sydd ar waith. Yr hyn **rydw** i'n ei wybod yw bod angen i ni gadw'n ffyddlon a cheisio ewyllys Duw. Dyna pam mae Synod Cymru wedi gofyn am sgyrsiau am ddyfodol yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru efo Wales Synod, yn dilyn proses weddigar o adolygu bywyd Synod a Chylchdaith Cymru. Mae'n rhaid i ni fod yn agored i symudiad yr Ysbryd Glân yn ein sgyrsiau, bod yn sensitif a holi ein hunain bob cam o'r ffordd, ond y peth pwysig yw ymateb i wynt a thân yr Ysbryd ar waith yn ein plith heddiw. Oherwydd y Pasg a'r Pentecost, fyddwn ni byth heb obaith. Atgyfododd Crist, a thrwy ei Ysbryd Glân, mae gyda ni am byth. Halelwia!


Synod Cymru

**Gwyliedydd**

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 212**
**EBRILL – MAI 2018**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
ROBIN JONES
LLYS ALAW, 18 STAD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
1 MAI 2018

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"
Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Nia Rhosier, Pontrobert | £20-00 |
| Llyfrgell Caerdydd | £04-00 |
| Prifysgol Bangor | £04-00 |
| A M Edwards, Llanfair TH | £20-00 |
| M Griffith, Y Drenewydd | £25-00 |
| E Parry, Caerffili | £25-00 |
| Cyfanswm | £98-00 |

# Cnoi Cil

## *gan Gwyndaf Roberts*

YN 1884 fe basiwyd Deddf Diwygio'r Senedd gan sicrhau bod dros 200,000 o ddynion yng Nghymru oedd yn drethdalwyr yn cael pleidleisio. Cyn y ddeddf honno oddeutu 75,000 oedd ar y rhestr pleidleisio sef ffigwr bach o gyfrif bod poblogaeth y wlad ychydig dros un filiwn ar y cyfnod hwnnw. Erbyn 1914 dringodd y ffigwr i ddwy filiwn a hanner. Wrth fesur democratiaeth yn nhermau un bleidlais i bob unigolyn fe ddywed Dr John Davies na fu etholiad cyffredinol gwirioneddol ddemocrataidd ym Mhrydain tan 1950!

Ym mis Mehefin eleni fe fyddwn yn dathlu bod menywod dros 30 oed wedi cael yr hawl i bleidleisio am y tro cyntaf. Fe fu'n frwydr galed i gael yr hawl hwn er bod dynion dros 21oed (gan eithrio gwrthwynebwyr cydwybodol) wedi cael y bleidlais. Yn ôl Dr John Davies eto, *'ystyrid bod menywod yn eu hugeiniau - y flappers bondigrybwyll - yn rhy anaeddfed i fod yn ddinasyddion llawn!'* Fe fu'n rhaid disgwyl tan 1928 i ferched a dynion dros 21 oed gael yr hawl i bleidlais. Yn y cyfamser erbyn diwedd y dauddegau gwelid merched ar fainc yr ynadon ac wedi'u penodi i'r bar. Daeth cyfartaledd o ran eiddo i fodolaeth yn 1926 ac yn 1924 ddeddfwyd bod hawl y tad a'r fam dros eu plant yn gydradd. Parhaodd yr ymdrech i sicrhau hawliau cyfartal i ferched gydol yr ugeinfed ganrif ond fel y gwyddom heddiw, mae'r frwydr ymhell o'i hennill. Efallai y bydd y ganrif hon wedi cerdded ymhell cyn y bydd gwir gyfartaledd wedi ymdreiddio i bob man ac yn dod yn ffordd o fyw i bawb.

Mae'n anodd gwybod i sicrwydd pam bod menywod wedi'u trin fel bodau israddol gan ddynion dros y canrifoedd. Mae'n amlwg bod yr ymddygiad hwn wedi bod yn rhan o fywyd cymdeithasol gwledydd Ewrop ers cyfnod y Rhufeiniaid o leiaf. Roedd dynion Rhufain yn cael ethol rhai i'r senedd ond roedd merched a chaethweision heb bleidlais. Ond efallai bod yr agwedd Iddewig at ferched wedi dylanwadu'n ddwfn ar Ewrop gyfan wrth i Gristnogaeth araf ledu a dod yn grefydd swyddogol i Rufain yn gyntaf, ac yna dros y canrifoedd i wladwriaethau mawr y cyfandir.

Fe wyddom mai'r tad oedd pennaeth y teulu Iddewig a bod ganddo awdurdod llwyr ar bawb a fyddai'n byw yn ei dŷ. Fe fu adeg pan allai werthu ei ferched i fod yn gaethweision a hyd yn oed ladd ei blant anufudd. Nid oedd rhaid iddo roi rheswm am ysgaru ei wraig nac ychwaith i'w chynnal wedyn. Mewn gair, y gŵr oedd perchennog ei wraig a byddai hi'n ei gyfrif fel meistr arni. Fe fu'n llawer rhy hawdd i'r rhai a fu'n llunio deddfau Prydain dros y canrifoedd i gyfiawnhau'r agwedd galed at ferched ynddynt ar y sail eu bod yn glynu at egwyddorion ysgrythurol yr Hen Destament yn arbennig. Byddai'r rhai mwyaf caled eu hagwedd yn cyfeirio at weithred Efa yn cymryd yr afal gwaharddedig er bod Adda yno gyda hi ac wedi dewis peidio ag ymyrryd. Dylid cofio mai fel pechod Adda, y penteulu, y cyfeirir at yr anfadwaith gwreiddiol hwn bellach.

Nid yw'n amhriodol nodi bod yn agos i 400 o ddynion yn cael eu henwi yn y Beibl ond mai dim ond 46 o fenywod sy'n ymddangos rhwng cloriau'r llyfrgell sanctaidd. Arwydd arall efallai o ddiffyg pwysigrwydd merched ym mywyd pobl Palestina. Erys y ffaith bod y mwyafrif o'r merched a enwyd yn gymeriadau dilychwin ac nad oes gywilydd gan neb heddiw arddel enwau fel Ruth, Esther, Miriam, Sara a Mair.

Mae'n ffaith ddiymwad mai merched yw'r rhai mwyaf ffyddlon mewn eglwys a chapel. Pan wnaed yr arolwg mawr diwethaf yn 1995 roedd 67% o'r mynychwyr yn fenywod, ac roedd y ffigyrau yn rhyfeddol o wastad ar draws yr enwadau. Mae'r arolwg yn cyfeirio hefyd at y ffaith bod 998 o weinidogion ordeiniedig yn gwasanaethu pum enwad yn 1995. O edrych ar gofnodion yr enwadau hyn ar ddechrau'r ganrif hon fe welir mai dim ond ychydig dros gant o'r gweinidogion hyn oedd yn fenywod. Fe fyddai'n rhaid wrth astudiaeth enfawr i olrhain y rhesymau am yr arafwch mewn ordeinio merched ond fe fyddai'r ffigurau yn arswydus o isel oni bai bod yr Eglwys yng Nghymru wedi ordeinio 61 o ferched yn Ionawr 1997. Ffenomenon yr ugeinfed ganrif yw ordeinio merched a'r gobaith yw y bydd llawer mwy yn ymateb i'r alwad yn fuan iawn.

Yr apostol Paul sy'n dweud yn ei lythyr at y Galatiaid, (pennod 3, adnod 23): *nid oes rhagor...rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chwi oll yng Nghrist Iesu.* Os yw Cristnogion Cymru yn credu hyn fe ddylem ni oll weithredu i sicrhau bod hawliau merched, yn eu holl agweddau, yn rhan o grwsâd ein henwadau. Ar ddiwedd oes Victoria, ac ar ddechrau'r ugeinfed ganrif fe arweiniodd methiant yr eglwysi i sefyll yn gadarn dros hawliau gweithwyr at siom enfawr ymhlith canran fawr o'r boblogaeth. Yn ystod y blynyddoedd hyn fe gollodd yr eglwysi barch llawer gan eu gyrru i chwilio am gymorth mewn pleidiau gwleidyddol a'r undebau. Ni allwn fforddio ailadrodd methiannau ddoe. Fel y swffragetiaid fe fydd yn rhaid inni fod ar flaen y gad ac nid yn wylwyr ofnus o hirbell.



# *Enwogion gynt a'n dyfodol ninnau*

## *gan y Parchedig John Bryn Jones*



FEL LLAWER OHONOCH EFALLAI, mae gennyf rai cannoedd o lyfrau ar fy silffoedd sy'n amrywio o nofelau a barddoniaeth Cymraeg a Saesneg, hanes, cofiannau – i lyfrau Beiblaidd a diwinyddol, yn enwedig esboniadau. Fel llyfrau eraill, mae esboniadau yn amrywio o ran cynnwys a manylder, gyda rhai yn rhagori ar ei gilydd. Mae'n amlwg o ddarllen esboniadau'r Parchedig Ddr William Barclay o'r Alban fod ysgolheictod mawr y tu ôl iddynt. Bu'n uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Caeredin a'r un modd yn Glasgow ac roedd yn hyddysg mewn Aramaeg, Lladin, Hebraeg a Groeg. Yn sicr, roedd yr offer iawn ganddo fel petai, ac mae hynny'n amlwg yn ei gyfres o esboniadau ar lyfrau'r Testament Newydd. Does dim amheuaeth bod ei waith clodwiw wedi ysbrydoli pregethwyr ddoe a heddiw. Felly hefyd y Dr Lloyd Jones, y pregethwr esboniadol a'r cyn-feddyg o Gaerfyrddin a gafodd gryn ddylanwad ar lawer o bobl.

Mawr yw ein dyled hefyd i'r Parchedig Ddr Leslie Weatherhead, a adwaenid fel un o'r tri chawr yn Llundain yn ei gyfnod; y ddau arall oedd y Parchedig Ddr William Sangster oedd yn weinidog yn y Westminster Central Hall, a'r Parchedig Donald Soper, gweinidog yn y Kingsway Hall (a sefydlwyd gan Gymro, y Parchedig Hugh Price Hughes o Sir Gaerfyrddin). O ran diddordeb, cefais fy ordeinio gan Dr Donald Soper ym 1954, yn y Gymanfa Ordeinio yng nghapel Jeriwsalem ym Methesda, Gwynedd. Roedd y triawd yn amlwg yn addoldai Llundain a galw mynych arnynt i bregethu mewn mannau eraill hefyd.

Nid yn unig roedd Dr. Weatherhead yn bregethwr poblogaidd, roedd ganddo hefyd glinig i gynghori pobl mewn anawsterau seicolegol ac ati. Roedd yn awdur amryw o lyfrau: un ohonynt oedd 'The Friendship of Jesus'. Llwyddodd Iesu yn ystod ei weinidogaeth i uniaethu ei hunan â phob rhan o gymdeithas, a mwy na hynny, daeth atom i ddatguddio sut un yw Duw. Daeth atom i'n gwaredu ac, yn ogystal, i adnewyddu ein perthynas â Duw. Mewn gair, daeth atom i fod yn ffrind i bawb, pwy bynnag y bo – ac mae Ann Griffiths yn mynegi hyn yn glir iawn yn Emyn 319 yn Caneuon Ffydd. Gwyddom fod Iesu'n hoff iawn o blant a bod arno eisiau iddynt ddod ato i'w bendithio. Nid oes dim yn atal i neb ddod yn ffrind i Iesu.

Mae sôn am dyrfaoedd yn ciwio i fynd i mewn i oedfaon pan fyddai Dr Weatherhead yn pregethu a byddai'r cynulleidfaoedd yn niferus iawn, weithiau'n 2,000 neu fwy. Ni welir peth o'r fath heddiw – er nad niferoedd sydd bwysicaf ond ansawdd yr hyn sy'n digwydd yn ein haddoldai. Gwyddom erbyn hyn bod y rhan fwyaf o'r enwadau yn wynebu lleihad, gan gynnwys y Catholigion. Pam tybed? Mae prinder ymgeiswyr am y weinidogaeth ond diolchwn am y rhai sy'n ystyried cymryd y cam pwysig hwn mewn dyddiau mor llwm. Ar hyn o bryd wrth gwrs, mae Talaith Cymru wrthi'n ystyried y ffordd ymlaen; mae'r Cadeirydd yn haeddu pob ystyriaeth a chefnogaeth gennym.

---

# *Diolch, Bryn!*

## *gan Richard Francis Jones*

YN YR WYDDGRUG ar fore Sul 21 Ionawr, cynhaliwyd gwasanaeth undebol arbennig dan arweiniad y Parchedig Marc Morgan, pryd y cafwyd cyfle i dalu teyrnged i'r Parchedig J. Bryn Jones. Ac yntau newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 93 oed, mae Bryn wedi cyflawni dros 70 mlynedd o weinidogaethu a bugeilio. Yn anffodus, oherwydd anhwylder, ni allai fod yn bresennol ei hun ond fe'i cynrychiolwyd gan ei briod Mrs Vera Jones a'u merch Nia.

Diolchodd y Parchedig Marc Morgan am waith Bryn fel gweinidog Wesleaidd ers 1947. Cyn mynd i'r weinidogaeth, bu yn yr Awyrlu gan wasanaethu am gyfnod yn yr India. Yna, ar ôl cyfnod yn y Coleg yn Birmingham, fe fu yn weinidog yng Ngherrigydrudion, Aberffraw a sawl Cylchdaith arall cyn dod i ardal yr Wyddgrug yn y chwedegau, lle mae'r teulu wedi ymgartrefu ers hynny. Mawr yw dyled yr eglwysi iddo am ei waith diflino. Darllenodd Richard Jones, Ysgrifennydd Capel Pendref, lythyr oddi wrth y Parchg Ddr Jennie Hurd, Cadeirydd Synod Cymru, yn diolch am waith a chyfeillgarwch Bryn. Cyflwynwyd hefyd i'r teulu lun o'r Parchg J Bryn Jones gydag aelodau Pendref, yn ogystal â llyfr ar waith John Wesley.

Rhoddodd Norman Closs Parry air o ddiolch ar ran Eglwysi Treffynnon, ynghyd â'r englyn a ganlyn:

Ti geraist hen saint y goror, o Sul
i Sul, buost ragor,
wrth roi, rhoi yn enw'r Iôr
i'n hangen - buost angor

Norman Closs

Diolchodd Mrs Maryl Rees, Goruchwyliwr y Gylchdaith, am arweiniad a chymorth Bryn bob amser. Cyflwynwyd cerdyn wedi ei arwyddo gan aelodau Eglwys Bethel, Yr Wyddgrug, sydd yn cyd-addoli â ni, gyda'u dymuniadau gorau, ac fe gyflwynodd Mrs Myra Parry dlws o flodau i Mrs Vera Jones ar ran Eglwys Pendref gan ddiolch iddi am ei chefnogaeth ar bob achlysur. Diolchodd Mrs Vera Jones yn gynnes i bawb, ar ran ei phriod a hithau, ac ymunodd pawb i gael paned.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad buan i Islwyn a Megan Evans, ill dau wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

**GOHEBYDD** . EIRIAN JONES

### *Ebeneser, Eglwysbach*

**ER COF ANNWYL**
Collodd Ebeneser ein haelod hynaf, sef Mrs Gwyneth Roberts, Tanrallt gynt, yn 85 mlwydd oed. Priod y diweddar Jac. Bu'n aelod ffyddlon nes gorfod symud, oherwydd ei hiechyd, at ei merch Nerys a'r teulu yn Ynys Môn. Diolch i'r Parchedigion Philip Barnett ac R. Ifor Jones am ymweld â Gwyneth. Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa dan arweiniad ein gweinidog y Parchg R. Ifor Jones ar nos Sul 4 Chwefror. Yr organydd oedd Mrs Diana Hughes. Rhoddodd ei mab Austin Roberts deyrnged i'w fam. Diolch i'r teulu am y rhoddion tuag at gapel Ebeneser.

**GOHEBYDD** . CHARLES CRAPPER

### *Pisgah, Rhiwlas*

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Heledd Eluned Evans sydd wedi llwyddo yn ei harholiadau a'i hyfforddiant gyda Heddlu Gogledd Cymru, a phob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd gyda'r heddlu. Llongyfarchiadau cywiraf hefyd i Heledd a Chris Wynne ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

**ENWOGION**
Braf oedd clywed dau o gyn-blant yr eglwys ar y cyfryngau yn ddiweddar. Bu Owain Arthur yn westai ar *Heno*, ac mae hefyd i'w weld ar y rhaglen wythnosol *Casualty* a'r gyfres *Hard Sun*. Yn yr un modd bu Manon Steffan Ross, y nofelydd a'r dramodydd, yn sgwrsio ar *Beti a'i Phobl*.

**GWRESOGI'R CAPEL**
Yn ystod mis Ionawr aethpwyd ati i gael system wresogi newydd i'r capel. Diolch yn arbennig i Carol a Hefin am sicrhau fod y gwaith angenrheidiol yma wedi digwydd. Mae'r gwaith bellach wedi ei gwblhau ac rydym yn falch o gael dychwelyd i'r capel. Croeso cynnes i aelodau a ffrindiau i'r holl oedfaon. Diolch o galon hefyd i'r criw sydd yn y llun, am ddod ynghyd i lanhau'r capel wedi'r gwaith atgweirio.



**GOHEBYDD** . EINIR WILLIAMS

### *Tabernacl, Llanfyllin*

**COFIO PANTYCELYN**
Cynhaliwyd oedfa fendithiol iawn yn Llanfyllin i ddathlu 300 mlynedd ers geni'r emynydd o Bantycelyn. Cafwyd cynulleidfa dda a chanu bendigedig. Cyflwynwyd yr emynau gan aelodau'r Tabernacl a Phendref ar ôl cael rhagarweiniad gan Tom a Mair Ellis, ynghyd â gweddïau a offrymwyd gan Eleri a Siwan, darlleniadau o'r Beibl gan Meg ac Elen, a datganiadau hyfryd o ddau emyn gan Llinos ac Elain. Darllenwyd dau englyn gan Mair Ellis ar ran Robin Hughes. Yr organydd oedd Eldrydd Jones a thalwyd y diolchiadau gan Robin Hughes.

William Williams Pantycelyn

Ein dyled i'r Pêr Ganiedydd – y Gair
ar gân tra ysblennydd;
i'r Cristion ei ffynnon ffydd
i ni maent eto'n newydd.

Pregethwr, arwr y werin, - awen
newydd Bardd y Brenin
pêr eiriau y pererin
a'r Gair ar waith fel y gwin.

**SUL Y GWAHANGLWYFION**
Ar Sul Ionawr 28 cynhaliwyd ein hoedfa flynyddol pan fyddwn yn cofio Cenhadaeth y Gwahanglwyfion. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Mr Huw Ellis, cyn bennaeth Ysgol Gynradd Llanfyllin ond sydd nawr yn swyddog gyda mudiad 'Life Transforming for Good'. Mudiad yw hwnnw sy'n ceisio dod â gwelliannau i fywyd teuluoedd yn y wlad hon, drwy ymweld ag ysgolion ar draws y wlad. Aeth y casgliad tuag at y genhadaeth i wahanglwyfion. Yr organydd oedd Eldrydd Jones a thalwyd y diolchiadau gan Robin Hughes. Ar ôl yr oedfa cawsom baned a sgwrs yn y festri; diolch i Mair Ellis a Decia Blacker am ddarparu'r paned.

**GOHEBYDD** . ROBIN HUGHES

**PONT ROBERT**
**ER COF ANNWYL**
Daeth siom a thristwch dros y fro pan ddaeth y newyddion am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Gwen Brynderwen. Nid oedd wedi bod yn ei llawn iechyd ers cyfnod ond ni fyddai ei sedd yn y capel byth yn wag. Bu'n ffyddlon yn y capel ar hyd ei hoes gan wasanaethu fel organydd am dros hanner can mlynedd ac fel cyd-drysorydd gyda'i gŵr Tegwyn. Rydym fel ffrindiau'r capel yn cydymdeimlo â Tegwyn, Gwenan a Iolo, Bethan a Martin, Rhian a Tony, Alun a Siân, a hefyd yr wyrion a'r wyresau a'r cysylltiadau i gyd. Fe luniodd Robin Hughes, Llanfyllin, englyn er cof amdani.

Gofid i deulu cyfa' – colli gwên,
colli Gwen Penwtra,
wele berson anwyla'
a'i hoes roes i'r doniau da.

Atgofion annwyl amdani. "Y wên na phyla amser."

**OEDFAON YM MHONTROBERT**
Cynhaliwyd oedfa undebol yn Ionawr a chroesawyd y Parchedig Jennie Hurd atom, ynghyd â'n gweinidog y Parchedig Peter Williams. Darllenwyd

o'r Ysgrythur gan Bryan a chyfeiliwyd gan Bronwen. Gweinyddwyd y Cymun. Wedi'r oedfa cafwyd paned a sgwrs. Ar ddau achlysur ym mis Chwefror, arweiniwyd yr addoliad gan ddau efaill o Lanfyllin sef Tom a John Ellis. Llawer o ddiolch i'r ddau am eu gwaith ar hyd y blynyddoedd.

**DIOLCH**
Ar nodyn personol, hoffwn ddiolch i aelodau a ffrindiau'r capel am eich ymholiadau yn ystod fy anhwylder diweddar. Diolch yn fawr.

**GOHEBYDD** . MARGARET BLAINEY

## *Horeb, Croesoswallt*

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
Mae'r Gymdeithas wedi cynnal nifer o gyfarfodydd. Ym mis Tachwedd daeth Parti Penllan o ddyffryn Tanat i'n diddanu a chawsom noson gerddorol wych yn eu cwmni. Llywyddwyd gan Eurwyn Jones. Yn Rhagfyr cawsom ein cinio arferol yn y Lord Moreton. Yna yn Ionawr daeth Mrs Carol Pearce, Meifod, atom i ddweud hanes y Crynwyr. Cawsom noson ddiddorol ac addysgiadol iawn yn ei chwmni. Llywyddwyd gan Melfyn Evans. Ein siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Chwefror oedd Mr Edgar Lewis, Wrecsam. Ar ôl ymddeol fel athro, sefydlodd ef ynghyd a'i gyd-ymddiriedolwyr ysgol i blant difreintiedig yn Nepal. Wedi rhai blynyddoedd fe ddychwelodd i Kathmandu a chael gweld sut y mae'r ysgol wedi datblygu ers y dechrau cyntaf. Hefyd soniodd sut y mae pobl Nepal wedi goroesi'r ddaeargryn erchyll. Llywyddwyd gan Eurwyn Jones. Ar Fawrth y 5ed dathlwyd Gŵyl Dewi gyda swper ac adloniant gan Mrs Iona Jones, Llansilin, a'i dwy ferch.

**GWASANAETHAU**
Yn ystod y misoedd diwethaf cawsom wasanaeth y Parchedigion Dilys Jones, Gwilym O Jones a Jennifer Hurd, a hefyd Mr Dafydd Barker Jones, ym mhulpudau Horeb a Seion. Cynhaliwyd gwasanaeth naw llith a naw carol dan ofal y gweinidog yn Horeb gyda nifer o'r aelodau yn cymryd rhan. Hefyd cawsom oedfa o fawl dan arweiniad Mrs Lynda Thomas, cyfle da i ymarfer o'r Detholiad newydd.

**GOHEBYDD** . EURWYN JONES

## *Ardal Bathafarn*

**OEDFAON**
Cymerwyd rhan mewn cyfarfod gweddi ym Mathafarn gan Beryl, Dilys, Elizabeth, Gwyneth a Lowri. Daeth aelodau eglwysi Cymraeg Rhuthun ynghyd hefyd i gynnal Cyfarfod Gweddi, pan gymerwyd rhan gan Dafydd o Fathafarn. Braf oedd cael dod at ein gilydd yn ogystal fel eglwysi'r dref i'r Eglwys Gatholig – yno cynrychiolwyd Bathafarn gan Elizabeth. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Parchg. John Carter a chyfle ar y terfyn i gymdeithasu uwchben paned a bisgedi. Diolch i'r aelodau am eu croeso cynnes.

Bu'r Parchg. Martin Evans-Jones yn gweinyddu'r Cymun ym Mathafarn yn Ionawr a Chwefror. Braf hefyd oedd cael croesawu'r Parchg. Gwyndaf Richards, Llanrhaeadr ym Mochnant, a gynhaliodd oedfa yng Nglyndyfrdwy yn ogystal. Diolch hefyd i Llinos Mary Jones a'r Diacon Stephen Roe am eu gwasanaeth. Cyfeiliwyd gan Rhian, Meta ac Elizabeth. Yn Rehoboth, Corwen, cynhaliwyd oedfa dechrau'r flwyddyn o dan ofal Aled Lewis Evans, Wrecsam.

**GWELLHAD BUAN**
Bu Margaret Evans, Min yr Afon, yn yr ysbyty am rai dyddiau a da ei gweld gartref. Mae Margaret Hughes, Abbeyfield, yn gwella ar ôl anffawd i'w choes. Da deall fod Edwina Stephens yn cryfhau ar ôl ei thriniaeth, hefyd Ceinwen Williams Jones. Dymunwn wellhad buan i Eva Jones, Llanarmon, ac Enid Edwards, Glyndyfrdwy. Cofion cynhesaf atoch i gyd, hefyd at Olwen Griffiths a Gretta Davies, ac Ifor Parry, yntau yn derbyn gofal tyner yng nghartref Plas Gwyn.

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog i Rhian Hughes ar ddod yn nain i Tomos Griffith sef mab bach Elgan a Helen, brawd bach i Aled a gor-ŵyr i Gwyn Williams. Pob bendith arnoch fel teulu.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Margaret Hughes a'r teulu. Bu farw chwaer Margaret yn ddiweddar. Meddwl amdanoch yn eich hiraeth am un annwyl.

**CYMDEITHAS BATHAFARN**
Diolch i'r Parchg. Martin Evans-Jones am ei gyflwyniad difyr ac addysgiadol ynglŷn â thröedigaeth John Wesley. Roedd Wesley yn sicr yn ddyn o flaen ei oes, un â gweledigaeth sydd mor berthnasol heddiw ag erioed.

Cawsom noson wahanol a diddorol yng nghwmni'r Parchg. Robin Fox ac roeddem i gyd yn bryderus wrth weld Martin yn rhoi cadwynau o gwmpas Robin a'i roi mewn sach! Dyna oedd testun y noson: 'Dengid o Gadwynau'. Er mawr ryddhad i ni, dyna a wnaeth, gan gyfleu neges Gristnogol!

**DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL**
Braf oedd cael bod yn rhan o'r gynulleidfa yn y Tabernacl, Rhuthun, o dan arweiniad medrus Robat Arwyn a'r cyfeilydd Christopher Enston. Noson fendithiol iawn.

**DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD**
Cynrychiolwyd Bathafarn yn y gwasanaeth ym Methania gan Olwen, Meta, Rhian ac Elizabeth. Y thema eleni oedd "Mae cread Duw yn dda iawn i gyd". Paratowyd y deunydd gan chwiorydd Cristnogol gwlad Swrinam a chawsom ein hannog ganddynt i garu'r greadigaeth, rhodd rhyfeddol Duw.

**GOHEBYDD** . ELIZABETH JONES

## *Ebeneser, Treuddyn*

**CYDYMDEIMLO**
Yn ystod mis Mawrth cynhaliwyd oedfa angladdol Mrs Moira Ingman yn y capel, dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda chymorth y Parchedig Robert Parry, Wrecsam. Yn gwasanaethu ar yr organ yr oedd ein horganydd Mrs Margaret Roberts. Cydymdeimlwn yn fawr â theulu Mrs Ingman; bydd colled fawr ar ei hôl.

**Y GROGLITH**
Ar fore dydd Gwener y Groglith, Mawrth 30ain, cynhelir gwasanaeth am 10.30yb o dan ofal ein gweinidog, y Parchg. Eirlys Gruffydd Evans.

**Y GYMDEITHAS**
Bu i'r Gymdeithas ailddechrau nos Fercher, Mawrth 7fed am 7 yr hwyr. Roedd y noson dan ofal Aneurin Phillips a fu'n sôn am Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, lle bu'n gweithio fel Prif Weithredwr am dros 10 mlynedd. Magwyd Aneurin yn Nhreuddyn a braf oedd ei weld yn ei hen gynefin unwaith eto. Ar Ebrill 4ydd bydd y Gymdeithas dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans ac ar Fai 2il bydd Mrs Margaret Morgan wrth y llyw.

Ar ddydd Sadwrn, Mai 12fed, cynhelir ein Harwerthiant Blynyddol yn Hafan Deg am 2 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at weld cyfeillion hen a newydd yn ein cefnogi. Bydd y Gymdeithas yn parhau i gyfarfod ar y nos Fercher cyntaf o'r mis hyd fis Awst ac mae rhaglen amrywiol a diddorol wedi'i threfnu gan y swyddogion. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y cyfarfodydd hyn.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at ein haelodau sy'n methu mynychu'r capel oherwydd gwaeledd, ac un ai'n gaeth i'w cartref neu mewn cartref gofal.

**GOHEBYDD** . GLENYS DAVIES

### *Bod yn Eglwys Dementia Gyfeillgar*

Cynhelir sesiwn ar fod yn eglwysi dementia gyfeillgar yng nghapel Shiloh Tregarth ar ddydd Sadwrn 21 Ebrill, 2-4 pm. Darperir y sesiwn ar y cyd gan DMLN Cymru a Merched Methodistaidd yng Nghymru gan ddefnyddio adnoddau Merched Methodistaidd ym Mhrydain a'r MHA. Croeso i bawb o bob enwad. Gofynnir i bawb gofrestru ymlaen llaw os gwelwch yn dda, er mwyn hwyluso'r trefniadau, trwy gysylltu â Delyth ar 07799 902576 neu daviesd@methodistchurch.org.uk.

### *Merched Methodistaidd*

Ar Ebrill 28ain yng nghapel Bethel, yr Wyddgrug am 2:30 y prynhawn, cynhelir cyfarfod Merched Methodistaidd. Croeso cynnes iawn i bawb. Y siaradwr gwadd fydd Kay Polley, swyddog gyda'r elusen Trefnu Cymunedol Cymru.

# O'r pen yma



gan **Angharad Tomos**

MAE'N YMDDANGOS yn bell yn ôl rŵan, ond pan ddaeth yr eira ddechrau Mawrth, mi barodd i mi feddwl. Fedrwn i ddim mynd allan, na gwneud fawr o ddim, felly eistedd yn gwylio'r eira ddaru mi, a myfyrio.

Wrth agor y llenni yn blygeiniol, syndod pleserus oedd yr eira – rhyfeddod prin. Doedd neb arall wedi codi, felly gwylio'r plu yn disgyn yn fân ac yn fuan wnes i. Ar ôl brecwast, a chynnau'r radio, roedd yr eira wedi troi yn anghenfil, yn felltith o Siberia, yn 'Beast from the East', yn drysu trefniadau pawb a phopeth, ac yn tarfu ar ddynoliaeth. Bendith oedd o i'r mab – dim ysgol a diwrnod annisgwyl o ryddid!

Parodd hyn i mi feddwl am y ffordd yr ydym yn ymagweddu at heriau'r byd. Gallwn naill ai wneud mor a mynydd ohono, neu edrych ar yr ochr olau, a chyfri'n bendithion. I gymharu â sawl gwlad arall, doedd ein tipyn eira ni yn ddim.


Dwi'n lecio'r ymadrodd Cymraeg, 'pluo eira'. Petha mor ysgafn â phlu ydyn nhw, ond gallant beri dryswch mawr. Sut ydyn ni'n ymdopi efo pethau sy'n tarfu ac yn drysu ein cynlluniau? Ydan ni'n gwylltio ac yn ffromi, neu ydan ni'n croesawu y newid fel rhywbeth positif? (Rhag ofn eich bod yn dyfalu, gwylltio fydda i, a hynny'n gandryll!)

Ond mi garwn fod fel arall. Pan ddaw her annisgwyl, bach neu fawr, mi garwn i allu derbyn hynny, heb brotestio yn ormodol. Falle mai cyfle i edrych ar bethau yn wahanol ydyw, falle mai gwers fechan ydyw i ddangos lle dylai ein blaenoriaethau fod. A phan ddaw'r stwff gwyn, mae pobl yn dueddol i fod yn barotach i gynnig cymwynas.

Wrth edrych allan drwy'r ffenest, mae dwy olygfa tra gwahanol. Mae gyrrwr yn edrych yn ddiflas iawn, gan fod ei gar wedi ei orchuddio ag eira, ac mae hynny'n drysu ei ddiwrnod. Yn y cae, mae'r plant wrth ei boddau, yn pledu'r naill a'r llall, ac yn cael hwyl garw yn gwneud dyn eira.

Boed inni gael y gras i dderbyn problemau fel her, ac ymagweddu atynt fel ein 'byr, ysgafn gystudd'. Ni sy'n eu gwneud yn bethau amhosib i'w goresgyn, am ein bod yn trio gwneud hynny ar ein pennau ein hunain. Efo nerth Duw, mae'n dipyn haws delio â hwy.

**Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni (2 Corinthiaid 4:17).**



# *O Fwletin Polisi Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru), Mawrth 2018*

MAE LLAWER O EGLWYSI ac elusennau Cristnogol yng Nghymru yn dweud eu bod yn gweld niferoedd cynyddol o blant ac oedolion yn newynu, wrth i effeithiau llymder economaidd, diwygio'r system lles a diweddu rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf ddechrau brathu. Mae llawer o gynulleidfaoedd sy'n perthyn i aelod enwadau Cytûn yn cartrefu neu'n cyfrannu at Fanciau Bwyd lleol. Daw 80% o wirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Trussell, darparwr mwyaf banciau bwyd yng Nghymru, o'r eglwysi ac felly hefyd lawer o'r rhoddion sy'n cynnal y cynllun.

Meddai Tony Graham, Cyfarwyddwr Cymru Ymddiriedolaeth Trussell, "Mae ein cymdeithas yn credu y dylid sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael yn ddiymgeledd. Ond yng Nghymru, fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, mae mwy a mwy o bobl angen banciau bwyd ac yn cael eu bod wedi eu carcharu mewn tlodi, wedi'u caethiwo gan incwm isel neu ansefydlog. Fe allai ein system budd-daliadau atal hyn, ond mae tyllau yn y rhwyd yn golygu ei bod yn gwthio pobl i dlodi. Mae banciau bwyd yn gwneud pob dim a allant i helpu, yn darparu bwyd, cefnogaeth ac unrhyw beth ychwanegol y gallant, ond allwn ni ddim ei gadael hi i fudiadau gwirfoddol ddatrys newyn a thlodi. Fe fyddai mynd i'r afael â phroblemau gyda budd-daliadau, y prif reswm pam mae pobl angen banciau bwyd, megis atal oedi ar gyfer taliadau, a chynnig mwy o gefnogaeth ariannol i bobl mewn argyfwng, yn enwedig pobl anabl a rhieni sengl, yn mynd yn bell iawn tuag at sicrhau na fydd angen cyfeirio pobl at fanciau bwyd."

Yn ystod 2018, bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno yn y rhan fwyaf o Gymru gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn symlhau'r drefn budd-daliadau, ond mae fel arfer yn cymryd pum wythnos i'r taliad cyntaf gyrraedd, a gwneir pob taliad yn fisol ar ddiwedd y mis. Mae llawer o elusennau yn adrodd bod hyn yn arwain at lithro i ddyled – yn enwedig dyledion rhent – ac fe all fod yn anodd iawn adfer y sefyllfa wedyn. Mae ymchwil newydd gan fanciau bwyd

# Iaith Gref

## *gan W. H. Owen*

YCHYDIG EIRIAU YDYN nhw cyn i raglen deledu ddechrau ar ôl naw o'r gloch y nos. Byddwn yn cael rhybudd gan gyflwynydd S4C i ni fod ar ein gwyliadwriaeth gan fod ein clustiau ar fin clywed "iaith gref". Fy ymateb bod tro yw "biti na fuasen ni!"

"Iaith gref" yn fy marn fach i yw iaith sy'n llifo'n naturiol, yn llawn idiomau Cymraeg, o'i chyferbynnu ag iaith lac lle clywir Saesneg yn Gymraeg. Mae'r awdurdodau'n ddigon parod i ni glywed iaith o'r fath neu fydden ni ddim yn ei chlywed – "oherwydd felly mae pobol yn siarad a fyddan nhw ddim yn deall Cymraeg rhy dda". Coeliwch fi, mae'r neges honno wedi ymdreiddio i'w hisymwybod a'r ffordd ddi-raen o gynnal deialog sy'n mynd â hi yn amlach na pheidio.

Ac wrth sgriptio brawddegau a geiriau i gyd-fynd â'r gofyn – o sgript wedi ei haddasu o'r Saesneg fwy na thebyg, os coeliwn rai sylwedyddion – yr hyn a gawn yw iaith gwrs ac aflednais, pob dim sy'n groes i'r hyn a dybiaf i yw "iaith gref". Ond chlywch chi'r un cyhoeddwr yn barod i gyhoeddi'r gwir fod y rhaglen nesaf yn cynnwys "iaith aflednais". A fydd yr un ohonyn nhw, byth bythoedd, am ddweud y clywch chi bobl "yn rhegi" yn ystod yr awr nesaf, dyna beth fyddai defnyddio "iaith gref"!

Rhaid cydnabod nad yw clywed rhegfeydd o'r sgrin yn duedd newydd, er ychydig o rybudd a gaem gynt. Wnaeth neb ragweld mai Kenneth Tynan fyddai'r cyntaf i ddefnyddio gair aflednais ar raglen 'fyw' BBC3 yn 1965. Yn sicr, er i'r BBC orfod ymddiheuro am y defnydd o'r fath air, agorodd y drws i'r arfer gynyddu o sgrin i lwyfan.

Daliai hyn i fod yn destun trafod yn nechrau'r saithdegau a chofiaf yr Athro R Tudur Jones yn mynegi ei deimladau ar y pwnc yn ei golofn yn *Y Cymro* wrth sôn am regi mewn dramâu. Rhywbeth fel hyn a ddywedodd: "Fyddwn ni ddim yn siarad iaith fel yna ar yr aelwyd a fyddwn ni ddim yn ei chaniatáu i ddod i mewn i'n haelwyd."

Bron hanner can mlynedd ers hynny mae pethau wedi gwaethygu'n ddybryd. Weithiau gallech deimlo fod ambell ddrama deledu yn gwneud ati i ddefnyddio iaith aflednais; byddech yn taeru eu bod yn chwilio am Wobr BAFTA wrth wneud.


Yn bendant maen nhw angen categori i "iaith gref", iaith sydd wedi ei saernïo'n grefftus heb reg ar ei chyfyl.

# Gair bach o werthfawrogiad

Llawenydd o'r mwyaf fu cael croesawu gweinidog newydd, sef y Parchedig Richard Gillion, i Gylchdaith Cymru eleni. Cyn dod yma, nid oedd Richard wedi cael unrhyw wersi ffurfiol yn y Gymraeg er iddo ymddiddori'n fawr yn yr iaith ac yn arbennig yn nhraddodiad emynyddol Cymru. Bellach mae'n prysur ddod yn rhugl yn yr iaith Gymraeg. Gwerthfawrogwn ei ymroddiad a hefyd y ffaith fod Mrs Lesley Gillion hithau yn ymroi i ddysgu ein hiaith. Dilynodd Lesley gwrs "Superwlpan" cyn gynted ag y daeth y ddau i fyw ym Mangor, gan symud ymlaen at gwrs pellach yn dilyn hynny – sy'n golygu llawer o waith!

Nid oedd y Gymraeg yn gwbl ddieithr i Lesley o'i phlentyndod, oherwydd fe ddysgodd ambell ymadrodd gan ei mam, oedd o dras Cymreig. Ganwyd Lesley ym Mancot, Sir y Fflint, a bu'r teulu'n byw ger Casnewydd cyn i swydd ei thad olygu symud i Ganolbarth Lloegr. Ar ôl hyfforddi fel athrawes Astudiaethau Crefydd a Drama yng Ngholeg Cyncoed, cafodd Lesley swydd yn dysgu yn Hemel Hempstead. Cyfarfu â Richard ar wyliau yn Solfach a phriododd y ddau ymhen blwyddyn. Pan oedd eu dau fab yn 18 mis a 3 wythnos oed, symudodd y teulu i Fryste er mwyn i Richard ddechrau hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. Rai blynyddoedd wedyn daeth y teulu i Gymru a gwasanaethodd Richard yng Nghasnewydd. Yn ystod eu hamser yno, yn ogystal â dysgu'n rhan-amser, bu Lesley'n Fugail Stryd a dilynodd hyfforddiant i fod yn Bregethwr Lleol cydnabyddedig yn yr Eglwys Fethodistaidd.

---




Ymddiriedolaeth Trussell yng ngweddill y DU lle mae'r drefn newydd hon wedi dod i rym yn llawn yn dangos cynnydd o 30% ar gyfartaledd ymhen chwe mis wedi i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno o'i gymharu â blwyddyn ynghynt.

Ar draws y DU, mae clymblaid o'r enw End Hunger UK yn ceisio ymateb i'r argyfwng. Ymhlith aelodau'r glymblaid y mae Church Action on Poverty; Eglwys Loegr; Eglwys yr Alban; Baptists Together (y mae Cymanfa Bedyddwyr De Cymru, sy'n aelod yn Cytûn, yn rhan ohono); aelod enwadau Cytûn yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig; Quaker Peace and Social Witness (a gysylltir â Chymdeithas y Cyfeillion, sy'n aelod yn Cytûn); ac Ymddiriedolaeth Trussell. Canolbwyntiodd yr ymgyrch i ddechrau ar fesurau i atal newyn gwyliau ysgol, gan gynnwys cefnogi bil meinciau cefn yn Senedd y DU i ddarparu prydau bwyd yn ystod y gwyliau i'r plant hynny sy'n cael prydau am ddim yn ystod y tymor ysgol. Fe gyflawnwyd hyn eisoes mewn llawer rhan o Gymru gan Glybiau Bwyd a Hwyl Llywodraeth Cymru (yn swyddogol Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf neu SHEP). Dyw'r cynllun hwn ddim fel arfer yn ariannu cynlluniau trydydd sector ond mae'r ymgyrch yn cyflwyno Bwydlen Diweddu Newyn gyda 9 eitem, gan gynnwys mynd i'r afael â llawer o'r materion yn yr erthygl hon. Gall eglwysi lleol ac unigolion arwyddo i ddangos eu cefnogaeth. Mae gwybodaeth bellach i'w chael yn http://endhungeruk.org/menu/

## Eglwys Unedig Colwyn

**CYDYMDEIMLO**
Ar Ragfyr 28 bu farw Mrs Mary Brenda Evans yn 93 oed. Gynt o Gwm Penmachno, daeth Mrs Evans i Hen Golwyn yn ei harddegau a bu yn ardal Colwyn am weddill ei hoes. Bu yn aelod yng nghapel Bethesda, Hen Golwyn, am rai blynyddoedd ac roedd yn briod â'r diweddar Edward Evans. Cynhaliwyd ei hangladd yn Horeb, Bae Colwyn ar Ionawr 11 gyda'r Parchedig Helen Wyn Jones yn gweinyddu a Mr Gwyn Jones wrth yr organ. Rhoddwyd Mrs Evans i orffwys ym Mynwent Bron y Nant. Cydymdeimlwn yn llwyr â'i chwaer Nel a'r teulu oll.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i Gwenllian sydd wedi torri ei braich yn dilyn codwm drwg iawn yn ddiweddar. Dymuniadau gorau hefyd i'r cleifion oll.

**GOHIRIO**
Yn anffodus bu'n rhaid gohirio ein gwasanaeth undebol Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd ar Fawrth 2 oherwydd y tywydd gaeafol. Gobeithio y bydd modd cynnal cyfarfod yn nes ymlaen.

**GOHEBYDD** . RHIANNON JONES

## St Paul, Aberystwyth

**GWEDDI AM UNDOD**
Trefnwyd ac arweiniwyd y Gwasanaeth Gweddi am Undod eleni ar gyfer capeli ac eglwysi Aberystwyth gan y Parchedig Roger Hides ar nos Sul 21 Ionawr. Y bwriad oedd cynnal y gwasanaeth yng Nghanolfan Sant Paul ond oherwydd problem gyda'r boeler ar y dydd symudwyd y gwasanaeth i gapel Dewi Sant, sef capel y Presbyteriaid a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig sydd yn yr un stryd. Cawsom wasanaeth dwyieithog bendithiol gyda nifer dda o addolwyr o gynulleidfaoedd y dref.

**'BWYDO BOLIAU NID BINIAU'**
Pob dydd Iau mae Canolfan Sant Paul yn paratoi cinio gan ddefnyddio bwyd dros ben o archfarchnadoedd lleol. Mae croeso i bawb ddod i'r cinio a gynhelir rhwng 11 a 1.30. Gofynnir i'r sawl sy'n dod dalu faint maent yn meddwl yw gwerth y bwyd a'r hyn maent yn gallu ei fforddio. Mae hon yn ymdrech gan y grŵp Aber Food Surplus ac aelodau o'r Ganolfan i helpu i sicrhau bod llai o fwyd yn cael ei wastraffu gan yr archfadnadoedd. Mae'n dda adrodd bod yr ymateb i'r fenter a ddechreuodd tua chwe mis yn ôl wedi bod yn gefnogol iawn.

**GOHEBYDD** . LIONEL MADDEN

## Pendref, Dinbych

**OEDFAON**
Rydym yn dal i addoli yn y Festri uchaf. Gobeithio erbyn rhifyn nesaf y *Gwyliedydd* y bydd gennym newyddion da am y gwaith atgyweirio oherwydd fe fwriedir i'r gwaith ar do'r capel ddechrau yn fuan iawn.

Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Ionawr a Chwefror dan ofal y Parchedigion Tudur Rowlands a Thomas E Williams ynghyd â Royce Warner, Thomas I Williams, Enid Davies ac Elizabeth Jones. Diolch hefyd i bawb a gymerodd ran mewn dau gyfarfod gweddi bendithiol. Ar yr ail Sul ym mis Ionawr adnewyddwyd y Cyfamod dan arweiniad y Parchedig Tom Williams – yr oedfa a'r traddodiad arbennig yma wedi ei gynnal ers blynyddoedd lawer.

**OFFERYNNAU CERDD**
Mae'r Clavinova a ddefnyddiwyd yng nghapel Peniel Llanelwy bellach wedi ymuno â'r organ yn Festri Pendref. Mae dewis nawr gan yr organyddion pa offeryn i'w ddefnyddio.

**TRYSORYDD Y SYNOD**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Medwyn Jones ar gael ei benodi'n Drysorydd newydd Synod Cymru.

**RHODDION I'R AMGUEDDFA**
Mae'r harmoniwm a adeiladwyd gan John Bellamy o Ddinbych (gweler y llun) yn ogystal â'r cloc gan Keepfers, hefyd o Ddinbych, oedd yn Festri Peniel bellach wedi eu diogelu yn Amgueddfa Dinbych. Deellir fod yr amgueddfa yn hynod ddiolchgar am y cyfraniadau hanesyddol yma.

**GOHEBYDD** . MARY JONES

FFAIR WANWYN
Byddwn yn cynnal ein Ffair Wanwyn yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych dydd Sadwrn Mai 5ed 2018 rhwng 10 a 11.30 y bore

## Bethel, Rhiwbeina

**OEDFAON**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf cawsom y pleser o groesawu atom y Parchedigion Dafydd Andrew Jones, Dafydd Henry Edwards, Eirian Rees a'n gweinidog Evan Morgan. Diolch yn fawr i'r pedwar.

**CYNGERDD**
Ddiwedd Ionawr aeth criw o'r capel i fwynhau cyngerdd 'amser cinio' yng nghapel Beulah, Rhiwbeina. Cafwyd cyfle gwych i gefnogi pedwar unawdydd ifanc sy'n cychwyn eu gyrfaoedd fel cantorion proffesiynol wedi cyfnod o astudio yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd.

**CYDYMDEIMLO**
Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â Janice Walters a gollodd ei mam yn ddiweddar.

**GŴYL DEWI**
Ar nos Fawrth Chwefror 27, er gwaethaf y tywydd garw, croesawodd ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan ryw 30 ohonom, yn aelodau a ffrindiau, i'r Caffe Fach, Ffordd Llanisien Fach. Bu'n pluo eira drwy'r dydd ond cyrhaeddodd pawb yn ddiogel. Merch o'r Felinheli, sef Maria Ellis, yw un o'r rhai sy'n rhedeg y caffi a chafwyd croeso cynnes ganddi. Cafwyd noson arbennig o dda gyda sgwrsio hwylus a bwyd blasus a hyfryd dros ben. (Yn ddiddorol mae chwaer Maria yn cadw caffi hefyd ym Methesda yng Ngwynedd.) Diolch i Gwenda Francis am y trefniadau.

**BORE COFFI**
Yn anffodus oherwydd tywydd anffafriol bu'n rhaid gohirio'r bore coffi ynghyd ag adloniant ar Fawrth 1 ond bydd modd ad-drefnu gobeithio cyn diwedd mis Mawrth. Bydd yr elw yn mynd at yr elusen *Cerddoriaeth Mewn Ysbytai.*

**GOHEBYDD** . GWILYM E ROBERTS



## Ebeneser, Caernarfon

**CYDYMDEIMLO**
Ar ôl cystudd blin a wynebodd yn ddewr, bu farw Aelwen Morris. Er iddi dreulio llawer o gyfnodau yn yr ysbyty, ni phylodd ei gwên. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i merch Carole a'r teulu oll. Bu ei ffrind Helena Edwards hefyd yn gefn eithriadol ac yn ffyddlon tu hwnt i Aelwen dros y blynyddoedd; mae'r teulu'n ddiolchgar iawn iddi am bopeth a wnaeth.

Ar ôl cystudd blin hefyd y bu farw Brian Williams, aelod ffyddlon a hael i'r achos. Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa iddo yng Nghanolfan Ebeneser ar 17 Chwefror dan arweiniad y Parchg. Gwynfor Williams gyda chymorth y Parchg. Richard Gillion. Roedd Brian yn boblogaidd iawn yn nhref Caernarfon ac fe weithiodd yn ddiwyd iawn er lles y dref a'i thrigolion. Bu'n faer y dref, yn gadeirydd Cyngor Arfon ac yn aelod o Gyngor Gwynedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i chwiorydd a'r teulu oll.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Gwenda Hughes sydd wedi bod mewn gwaeledd. Dymunwn wellhad buan i chi, Gwenda.

Pob dymuniad da i June Aubrey a gafodd driniaeth i'w llygad yn ddiweddar ac i Eira Owain yn dilyn triniaeth i'w phen-glin. Mae amryw o aelodau wedi bod yn wael – brysied y dydd y cawn eu croesawu'n ôl ar ôl llwyr iachâd.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau calonnog i Eira Owain ar enedigaeth gor-ŵyr sef Owain Celt.

**SYMUD**
Oherwydd rhesymau teuluol, rydym yn colli blaenor ymroddgar sef Morwenna Roberts. Mae Morwenna yn symud i gapel yn Sir Fôn. Gwerthfawrogwn ei chyfraniad i Ebeneser; ymgymerodd â'i dyletswyddau yma â'i holl egni a bydd yn golled enfawr i ni.

**GOHEBYDD** . BRANWEN L. EDWARDS

## Shiloh, Tregarth

**PROFEDIGAETH**
Bu farw Elfed Wyn Jones, Ffordd Ffrydlas, Bethesda, ar Chwefror 9fed. Mae ei briod Helen yn aelod ffyddlon iawn yn Shiloh ac anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf ati ac at ei ferch Bethan a gweddill y teulu.

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elin Gwyn, yn ei phrofedigaeth fawr o golli ei phartner Iwan Huws mewn damwain ar fynydd Tryfan. Bu Elin a'i chwiorydd Angharad, Mari a Rhiannon yn aelodau ffyddlon yn Ysgol Sul Shiloh rai blynyddoedd yn ôl.

Wrth i'r *Gwyliedydd* fynd i'r wasg, daeth y newydd trist am farwolaeth David Ellis Jones, Glan Gors. Cydymdeimlwn yn ddwys â Valerie, Dewi a'r teulu.

**GOHEBYDD** . GWENDA DAVIES

## Ebeneser, Dolgellau

**COLLED**
Ar ddiwrnod olaf Chwefror daeth newydd trist fod Mrs Olwen Davies, Llys Meurig, aelod hynaf Ebeneser wedi marw yn sydyn yn ei chartref. Un o Ddolgellau oedd Olwen a chyn i'w hiechyd ddirywio bu'n mynychu'r capel yn ffyddlon iawn. Parhaodd i gefnogi'r achos drwy'i hoes. Cydymdeimlwn â'i theulu a'i chysylltiadau yn eu colled.

**DYMUNIADAU GORAU**
Mae Mrs Margaret Baron yn Ysbyty Dolgellau ar hyn o bryd – dymunwn wellhad buan iddi. Bu Mrs Megan Abbey a Mrs Annette Davies hefyd yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond erbyn hyn yn gwella gartref. Pob dymuniad da iddynt hwythau.

**CYFARFOD ARDAL**
Diolch i Mr Alan Woodbridge am gytuno i fod yn aelod o'r Cyfarfod Ardal.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Llŷr a'i wraig Federica ar enedigaeth merch fach, Nona Peggy, ar yr 11eg Ionawr 2018, yng Ngwlad yr Haf, chwaer fach i Mali ac Ilan ac wyres i Jane Thomas, Glanrhyd, Dolgellau.

**GOHEBYDD** . GWYNETH MEREDITH

# *Deled dy Deyrnas*

## *gan Bet Holmes*

AR 24 IONAWR ELENI, ces i fy anfon gan y Parchedig Jennie Hurd i Balas Lambeth yn Llundain i lawnsiad "**Deled dy Deyrnas**" ("Thy Kingdom Come") 2018. Menter gan Archesgobion Caergaint ac Efrog yw hon i gael pobl i weddïo ar y deng diwrnod rhwng y Dyrchafael a'r Sulgwyn, i'r Ysbryd weithao yn ein plith. Dechreuodd ddwy flynedd yn ôl yn unig a'r flwyddyn honno cymerwyd rhan gan ryw 100,000. Ers hynny mae wedi tyfu yn aruthrol a'r llynedd cafodd miloedd o ddigwyddiadau eu cofrestru ar y wefan. Pam mae'r syniad wedi bod mor llwyddiannus? 1) Mae'n digwydd dros gyfnod byr, penodedig (eleni o'r 10fed i'r 20fed o Fai) 2) mae'n syml a 3) mae'n gludadwy.

Nid rhywbeth Anglicanaidd yn unig mohono: yn Lambeth roedd siaradwyr o Fyddin yr Iachawdwriaeth, o'r Eglwys Gatholig, o eglwys Bentecostal ac WRTH GWRS o'r Eglwys Fethodistaidd. Nid rhywbeth Saesneg yn unig mohono chwaith: mae adnoddau ar gael yn Ffrangeg, Sbaeneg, Portiwgaleg, Kiswahili, Iaith Core ac iaith Siapan. Ac mae adnoddau yn y Gymraeg ar y gweill!

Beth sydd ar gael? Llawer o bethau, rhai yn dod ar bapur, rhai i'w lawrlwytho o'r We. Dyma'r rhai roeddwn i'n eu hoffi'n fwyaf, oedd ar gael yn Gymraeg ar ddechrau mis Mawrth.

"Cit Teyrnas" yn cynnwys smarties a sparklers a llawer o bethau eraill ar gyfer plant bach i'w lawrlwytho

"Casgliad disglair o Syniadau Gweddi i deuluoedd gartref" i'w lawrlwytho

Roeddwn yn hoffi'r rhain hefyd, a gobeithio y byddan nhw ar gael yn Gymraeg erbyn i chi ddarllen hwn.

"Waiting in Wonder" – llyfryn bach wedi ei baratoi gan yr Eglwys Fethodistaidd gyda gweddi, darlleniad a llun ar gyfer pob dydd

"Bright Prayer Ideas" – llawer o syniadau diddorol ar gyfer eglwysi a chapeli, ar gyfer y teulu yn y cartref, ar gyfer digwyddiadau yn yr awyr agored, LlanLlanast a llawer mwy

"Family Creative Prayer Journal" – gweithgareddau ar gyfer plant cynradd

"Prayer Journal" – i'n cymell i weddïo dros 5 unigolyn

Poster

Rwy'n edrych ymlaen at weithio trwy "Waiting in Wonder" / "Disgwyl mewn Rhyfeddod", ac mae'r danteithion yn y "Family Kingdom Kit" yn mynd i ddod â'r ferch fach oddi mewn i mi mas i chwarae!

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.thykingdomcome.global lle cewch chi weld yr adnoddau ac, yn bwysicaf oll, **ymgofrestru i weddïo -** rhwng y 10fed a'r 20fed o fis Mai.

Hoffwn i weld ein gweinidogion a'n pregethwyr yn defnyddio'r rhain i ddathlu'r Sulgwyn, Pen-blwydd yr Eglwys, gyda hwyl a brwdfrydedd; yn anad dim, gadewch i ni i gyd ymuno yn y weddi!

# ‘Maddau Iddynt’

## *gan Elwyn Parry*

PAN OEDDWN YN Y FYDDIN roedd gen i gyfaill o Swydd Efrog ac fe ddywedai ar lawer achlysur, “Taff, there’s nowt so queer as folk” a byddwn innau’n ychwanegu fod pobl hefyd yn “wit-wat”. Mae’n siŵr ein bod i gyd wedi sylweddoli hynny, i’n cost yn aml. Yn wir, un funud fe gewch eich canmol a’r funud nesaf eich anwybyddu. Dyna yw bywyd, ynte?

Wrth inni ddilyn hanes yr Wythnos Fawr, mae anghysondeb pobl i’w weld yn amlwg iawn. Ar Sul y Blodau, roedd torf wedi ymgynnull i groesawu Iesu i Jerwsalem ar gyfer gŵyl grefyddol fwyaf y flwyddyn. Mae’n siŵr bod y bobl yn ceisio dyfalu beth fyddai gan “ŵr y gwyrthiau” i’w ddweud a beth fyddai’n ei wneud. Roedd y lle yn ferw gwyllt wrth i’r bobl daenu eu dillad, estyn dail y palmwydd a gweiddi “Hosanna!”. Ond, wedi i Iesu gyrraedd Jerwsalem, newidiodd agwedd y bobl, dan ddylanwad “dewiniaid delwedd” yr oes.

Newidiodd y gân o “Hosanna” i “Croeshoelier ef”. Erbyn dydd Gwener roedd y croeso yn perthyn i ddoe. Cofiwch, nid ein lle ni yw barnu ond ar yr un pryd mae difaterwch hefyd yn bechod. Yng ngherdd G.A. Studdert Kennedy, *Indifference,* mae’r bardd yn disgrifio Crist yn dod i Birmingham:

*When Jesus came to Birmingham, they simply passed Him by.*
*They would not hurt a hair of Him, they only let Him die;*
*For men had grown more tender, and they would not give Him pain,*
*They only just passed down the street, and left Him in the rain.*

Ac yma rydym yn cyffwrdd â dirgelwch aruthrol Duw. Pan groeshoeliwyd Crist fe weddïodd y weddi ddwys, “O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.” (Luc 23:34). Gweddi yw hon dros y milwyr a gurodd yr hoelion i’w gnawd, dros y rhai anghyson yn y dorf, dros Judas a werthodd ei gyfaill am arian a’r disgyblion gwangalon...yn wir



dros BAWB a gaeodd y drws yn neis yn ei wyneb a dweud “Dim heddiw, diolch yn fawr.” Y weddi fawr hon, “O Dad, maddau iddynt”, yw cariad.

# *Mae newid yn digwydd pan fydd pawb yn cydweithio*


## *gan y Parchedig Pam Cram*

DYNA OEDD TEITL cynhadledd ‘All We Can’ (Cymorth a Datblygiad Methodistaidd) eleni. Fe dreuliodd Alan a finnau benwythnos yn Llundain, lle cawsom gyfle i ymlacio, mynychu cyngerdd ac yn y blaen – ond y prif reswm dros fynd oedd y gynhadledd undydd yng Ngholeg William Booth, sef coleg Byddin yr Iachawdwriaeth yn Denmark Hill, De Llundain. Roedd y tywydd dros y penwythnos cyfan yn wael iawn, ond y croeso a’r cwmni yn wych gyda thîm ‘All We Can’.

Yn arwain yr addoliad roedd cantores a chyfansoddwraig o’r enw Geraldine Latty, yn wreiddiol o Crewe, lle roeddem ni yn ei nabod hi yn ferch ifanc flynyddoedd lawer yn ôl. Mae hi’n arweinydd addoli talentog a sensitif iawn. Cawsom ein harwain ar y thema ‘Cyfiawnder’ gan y Parchedig Calvin Samuel o Goleg Beiblaidd Llundain, ac yn ystod y dydd fe wnaethpwyd ‘wordle’ ar y thema – pawb yn cynnig gair yn gysylltiedig â ‘chyfiawnder’ a maint y gair yn y llun yn dangos pa mor aml y daeth y gair hwnnw lan.

A sôn am eiriau, a oeddech yn gwybod bod y gair cyfiawnder/cyfiawn/cyfiawnhad yn ymddangos dros 1500 o weithiau yn y Beibl, o’i gymharu â ffydd/credu tua 450 o weithiau a chariad/gras tua 700?

Yr argraff fwyaf yn ystod y dydd oedd pa mor broffesiynol, creadigol, ymrwymedig ac egnïol y mae aelodau staff ‘All We Can’. Syndod i ni ‘oldies’ oedd gweld pa mor ifanc ydyn nhw – ond mor alluog a phrofiadol!




Hefyd roedd yn wych clywed oddi wrth y staff, a’r gwestai o Zimbabwe, am y ffordd y mae’r mudiad yn gweithio dramor – yn edrych allan am bobl yn y gymuned sydd â gweledigaeth eisoes am beth sydd ei eisiau er mwyn symud ymlaen. Wedyn mae ‘All We Can’ yn rhoi help llaw iddynt wireddu eu breuddwydion.

Elusen fach yw ‘All We Can’ o’i chymharu â Chymorth Cristnogol, ond mae’n gwneud gwaith pwysig gyda chymunedau bach ac ynysig yn yr Affrig, Asia a’r Caribî, ac yn dangos sut mae swm o arian cymharol fach yn medru cyflawni gwyrthiau.

Yn olaf, hoffwn rannu dyfyniad a glywais yn y cyfarfod gan y Parchg. Lorraine Mellor, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd: *Give to God what is right not what is left!*

*[Un o Garmel ger Treffynnon yw Glyn, sydd yn aelod o'r Eglwys Uniongred. Mae'n gweithio fel cyfieithydd ac yn ddiweddar aeth ati i gyfieithu i'r Saesneg 'Pobol Capel Nant y Gro' gan y diweddar Barchg. O. Madoc Roberts, gweinidog yn yr Eglwys Fethodistaidd.]*

# POBOL CAPEL NANT Y GRO

## *gan Glyn Lasarus Jones*

Tybed ble mae'r ffin rhwng cyd-ddigwyddiad a rhagluniaeth? Wn i ddim, ond rwy'n tybio bod y cais a gefais i gyfieithu 'Pobl Capel Nant y Gro' yn troedio rhywle ger y ffin honno. Pwy yn wir fuasai'n meddwl? Minnau'n prynu'r llyfr mewn siop ail law am hanner can ceiniog, ac yna, yn cael e-bost hollol ddirybudd ychydig wedyn gan ŵyr y Parchedig O. Madoc Roberts yn chwilio am rywun allai gyfieithu llyfr ei daid. Derbyniais y cynnig yn llawen, fel y gallwch ddychmygu.

Ganwyd O. Madoc Roberts ym 1865 ym Mhorthmadog, yn fab i gapten llong. Dechreuodd bregethu yn ei arddegau gan fynd maes o law i Fanceinion i astudio ar gyfer y Weinidogaeth. Ar ôl treulio ei gyfnod prawf yn Weinidog ar gylchdaith Abergele, fe'i hordeiniwyd ym 1904 gan wasanaethu ar gylchdeithiau Tre-garth, Caernarfon, Llanrhaeadr-ym-mochnant, Llangollen, Conwy, Tywyn a Bangor. Ym 1917 fe'i hetholwyd yn Stiward Llyfrfa'r Eglwys Fethodistaidd ym Mangor a bu yno am 21 mlynedd. Cyfrannai'n helaeth at gyfnodolion y Wesleaid, ac ysgrifennodd bedair cyfrol – *Cofiant y Tri Brawd*, *Pobl Capel Nant y Gro*, *Llyfr y Proffwyd Amos* a *Bywyd Iesu Grist i'r Ieuainc*. Bu farw ym 1948.

Cyhoeddwyd 'Pobol Capel Nant y Gro' ar ffurf llyfr ym 1914, wedi i rai o'r penodau ymddangos yn 'un o fisolion hynaf Cymru', sef yr Eurgrawn, rwy'n credu. Nid oes plot i'r llyfr, fel y cyfryw, ond mae pob pennod yn ein cyflwyno i gymeriad newydd neu i agwedd arall ar fywyd capel bach dychmygol yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a throad yr ugeinfed ganrif. Mewn gair, yr hyn a geir yw portread o gymuned wledig, uniaith Gymraeg yn ceisio cyflawni'r gorchymyn hwnnw o eiddo'r Apostol Sanctaidd Paul "Dygwch feichiau eich gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Crist" (Galatiaid 6:2), gan lwyddo'n rhyfeddol weithiau a methu'n drychinebus dro arall. Cawn gwrdd â'r Blaenor y mae ei weddïau yn newid yr hin, yr hen gapten rhadlon ond rhagfarnllyd, y codwr canu sydd wedi colli ei lais, y ci sy'n cadw'r Sabath, a phregethwyr sy'n pregethu'r un pregethau droeon. Mae'r nofel yn hynny o beth yn ddarlun o unrhyw gymuned eglwysig, a chynulleidfa'r capel bach, yn ei thro, yn ddarlun o'r Eglwys yn ei chyflawnder – cymuned pobl Dduw yn cydweithio gyda'i gilydd a chyda gras Duw i geisio goresgyn ffaeleddau'r natur ddynol a dod yn gyfranogion o fywyd y Deyrnas.

Apêl fawr y llyfr i mi yw'r byd a'r cymeriadau a bortreadir. Y mae'n olwg ar Gymru sydd wedi hen ddiflannu, ac ar y cewri ysbrydol a drigai ynddi. Ac ni chredaf fy mod yn rhamantu drwy ddweud hynny. Er mai dychmygol yw'r cymeriadau, does dim amheuaeth eu bod yn seiliedig ar bobl o gig a gwaed – pobl yr oedd eu duwioldeb wedi treiddio i wead eu cyfansoddiad. Fel y dywed yr awdur am un o'i gymeriadau tuag at y diwedd "sut y gallai esbonio Sam Puw a Shon Gruffydd ar wahân i Grist?" Maent yn bobl hardd ac arwrol. Mae eu cwrdd, hyd yn oed ar dudalen llyfr, yn falm i'r enaid, ac maent yn eich denu atyn nhw fel tân mewn tŷ llwm. Mae treulio hyd yn oed ambell baragraff yn eu cwmni yn deffro'r delfrydau aruchel hynny sydd yng nghalon dyn, yr hiraeth dwfn hwnnw sydd ynom ni i gyd am weld prydferthwch Duw yn ei greadigaeth. Dyma'r prydferthwch y dywedodd Dostoiefsgi a fyddai'n achub y byd. Ac mae'r prydferthwch hwn i'w weld yn niwinyddiaeth y cymeriadau. Ystyriwch y sylw hyfryd hwn a wneir yng ngenau un o bregethwyr lleyg y llyfr:

"Petasai coed y maes yn *writing pens,* a dail y coed yn bapur sgrifennu, a'r môr mawr llydan yn botal inc, ni ellid sgrifennu yn agos y ganfed na'r filfed o harddwch yr Oen."

Tybed a allai unrhyw un yng Nghymru heddiw ysgrifennu'r fath frawddeg?

Agwedd arall hyfryd ar y llyfr yw ei iaith. Mae'n wirioneddol odidog; a'r Gymraeg yn groyw a graenus ac ystwyth, a phopeth wedi ei asio'n gain. Ys dywed un adolygydd dienw o'r cyfnod: "Llenor sydd yma, ac nid ymgnawdoliad o ebychiadau pregethwrol."

Roedd Pobol Capel Nant y Gro yn fodd hefyd i'r Parchedig O. Madoc Roberts gyflwyno ei ddysgeidiaeth gymdeithasol. Gwna hynny yn arbennig yng nghymeriad gwrtharwr y stori, Willie Moreton, sy'n dipyn o ddraenen yn ystlys pobl y capel. Mae'n dadlau dros y tlawd ac yn hallt ei farn ar y byddigions. Yng ngenau un arall o'i gymeriadau, mae O. Madoc Roberts yn eiriol dros statws y ferch hyd yn oed gyda'r sylw cellweirus hwn:

"Wyt ti ddim yn meddwl, mewn difri, dŵad, y basa'n well i chi adael i ni'r merched fod yn swyddogion? Choelia'i byth na basa' na lai o ffraeo a llawer mwy o waith."

Roedd y nofel yn anodd eithriadol i'w chyfieithu, a hynny oherwydd ei bod mor Gymreig – nid yn unig yn ei throeon ymadrodd ond yn y bywyd y mae hi yn ei gyfleu. Dyma werin gwlad duwiol a diwylliedig, pobl o ddyfnder gras a chyflawnder cymeriad rhyfeddol. Roedd ceisio eu cyflwyno fel hyn i ddarllenwyr Saesneg, seciwlar, heb eu portreadu, i ddefnyddio'r gair Saesneg, fel rhyw fath o '*peasants*' ofergoelus, yn gryn her. Ni wn i pa mor llwyddiannus y bûm i, ond gwn i mi fwynhau yn fawr y profiad o drosi'r gwaith a byw am fisoedd lawer yng nghwmni'r cymeriadau, gan ddod i adnabod drwyddyn nhw ychydig ar y dyn mawr ei hun, y Parchedig O. Madoc Roberts.







# *Brodyr yn y Ffydd*

## *gan Tom Ellis*

Cawsom ein geni a'n magu ar fferm fach o'r enw Cornorion, mewn cwm Cymraeg a chyfeillgar, tua thair milltir y tu allan i Lanfyllin, Sir Drefaldwyn. Fferm hunangynhaliol oedd hi. Byddai Dad allan yn troi, torri ŷd neu wair, neu'n dyrnu ar ffermydd eraill, o fore gwyn tan nos. Mam yn godro, bwydo'r moch, yr ieir, y twrcis a'r lloi, yn ogystal â gwneud menyn a gofalu am y tŷ. Fy efaill John a finnau'n gorfod helpu'n ifanc iawn. Dim trydan, dim dŵr tap, dim ffôn tan oeddem yn ddeg oed – wedyn pethau'n dechrau gwella. Byddai Nain yn eistedd yn ei chornel a'r Beibl wastad wrth ei hochr, a hi fyddai'n dysgu adnod neu bennill i ni'n dau erbyn y Sul. Bu'r adnodau hyn yn gysur mawr yn ein bywydau.

Mewn cymdeithas glòs y cawsom ein codi, cymdogaeth lle na fyddai drysau'r tai byth ar glo. Byddai ffermwyr y fro yn cydweithio'n hapus adeg y cynhaeaf a'r dyrnu. Dim peiriannau mawr, wrth gwrs, dim ond cario'r gwair yn rhydd, a phawb yn cynorthwyo'i gilydd. Canolfan y gymdeithas oedd y capel a byddem yn mynd dair gwaith bob Sul i gapel bach Soar, Nantfyllon. Roedd y pregethwyr gyda ni i ginio neu de yn aml iawn a Mam yn ei chyfrif yn fraint cael eu croesawu. Plentyndod bendigedig ond heb lawer o wyliau na theganau.

Ar ôl mynd i'r Ysgol Uwchradd yn Llanfyllin, cawsom ein dylanwadu'n fawr gan yr athro Ysgrythur, y diweddar Geraint Morgan. Cychwynnodd Glwb Cristnogol amser cinio a chefais i fy ethol yn gadeirydd. Rhoddodd gopi bach o'r Testament Newydd i ni gyda'r adnod, "Canys felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd ei unig-anedig Fab, fel na choller………………a gredo ynddo ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol" a lle i ni osod ein henwau yn y gofod. Cymerodd amser i ni lenwi'r bwlch ond mor falch oeddem pan allasom wneud hynny. Mae'r Testament hwn yn un o'n trysorau mwyaf gwerthfawr erbyn hyn. Pan oeddem yn y chweched dosbarth dechreuodd John a fi arwain gwasanaethau yn y capel; yna pan fyddem gartref ar ein gwyliau o'r coleg gofynnid i ni gymryd gwasanaethau yn rhai o gapeli'r ardal. Mae'n siŵr fod prinder pregethwyr bryd hynny hefyd!


Aethom ein dau i Goleg y Drindod yng Nghaerfyrddin i hyfforddi i fod yn athrawon. Yno y cyfarfyddais i â Mair, fy ngwraig, merch i weinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Rhondda. Aethom ymlaen i Goleg St. Paul, Cheltenham, ar ôl hynny i arbenigo mewn Ymarfer Corff ac yno y cyfarfu John â Pat ei wraig – hithau'n Gristion o argyhoeddiad hefyd. Ac y mae'r ddwy wedi bod yn gymorth a chefn i ni'n dau ar ein taith ysbrydol.

Yn y chwedegau cynnar, roedd Mam yn dioddef o glefyd Parkinson a'i chyflwr yn gwaethygu. Felly ar ôl dysgu am dair i bedair blynedd cawsom ein dau swyddi Ymarfer Corff a Mathemateg yn y ddwy Ysgol Uwchradd agosaf i'n cartref – hyn yn ein galluogi i fod yn gefn i Dad. Llaw Duw neu ffawd? A dyma lle y treuliasom weddill ein gyrfa dysgu tan ymddeol. Yn ystod y cyfnod hwn cawsom gyfle i ddod i adnabod y disgyblion a'u rhieni yn dda iawn trwy ein swyddi – John fel Dirprwy Brifathro yn Llanfair Caereinion a minnau fel Pennaeth yr Ysgol Iau, Blynyddoedd 7, 8 a 9, yn Llanfyllin. Pleser mawr hefyd oedd cael arwain gwasanaethau boreol Cristnogol am bron i ddeg ar hugain o flynyddoedd. Rhoddodd ein gwaith fwynhad mawr dros y blynyddoedd. Diolchwn am yr amrywiaeth o brofiadau dysgu a gawsom. Bu cystadlu brwd ar y meysydd chwarae rhwng y ddwy ysgol tra oeddem ni'n dau yno! Mynd â'r disgyblion ar dripiau sgïo gyda'n gilydd yn ychwanegu at yr hwyl.

Yn 1963 cawsom ein cydnabod fel pregethwyr cynorthwyol gan yr Eglwys Fethodistaidd. Yn nechrau'r 90au cawsom ganiatâd i weinyddu Sacrament y Cymun. Y ddau ohonom yn teimlo hyn yn fraint ac anrhydedd. Yn ystod y pum mlynedd ar hugain diwethaf cawsom bleser mawr yn gweinyddu ym mhriodasau rhai o'n cyn-ddisgyblion a bedyddio babanod. Anrhydedd arall oedd cael ein gwahodd i ymuno â'r Gideoniaid a chael cyfle i gyflwyno Testamentau i blant Blwyddyn 7 yn yr Ysgolion Uwchradd.

Er na fu'r un ohonom yn ddarllenwr brwd erioed (darllen i bwrpas yn unig, e.e. i wneud pregethau!) ceisiwn ddarllen y Beibl yn gyson. Un o fy hoff adnodau yw "Yr wyf fi gyda thi bob amser". Yn 2001 cefais ddamwain ddrwg wrth sgïo ar ben mynydd yn Ffrainc, a dyna oedd y geiriau a ddaeth i mi yn fy mhoen a'm panig gwyllt. Teimlais fy hun yn ymlacio'n llwyr a rhyw heddwch hyfryd yn fy amgylchynu.

Wrth edrych yn ôl gallwn weld sut y mae ein bywydau wedi rhedeg yn gyfochrog ar hyd y blynyddoedd. Ein canlyniadau yr un fath yn yr ysgol ac yn y coleg; cael swyddi yn ôl yn ein sir enedigol o fewn blwyddyn i'n gilydd; hefyd derbyn anrhydeddau tebyg yn ein cymunedau lleol ac yn sirol. (Byddai rhai yn dweud ein bod yr un mor ffanatig â'n gilydd am gadw'n heini, hefyd!) Yn wir, er ein bod yn fechgyn cyffredin iawn, cawsom ein bendithio ar hyd ein hoes. A diolchwn i Dduw am hynny.



**Ni allwn wneuthur dim, ein Iôr,**
**os ceisiwn hebot ti;**
**ein grym fydd aros ynot mwy,**
**a thithau ynom ni.**

**Arthur Williams**

# Gweithredu Dros Blant

**Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law ers dechrau 2018, tuag at Gweithredu dros Blant:**

Pontybodkin Ladies Guild - £70
Mr a Mrs Geraint Roberts, Dinbych (blwch casglu) - £49.27
Eirian, Alwyn a Wyn a'r teuluoedd – £25
er cof annwyl am y Parchg. Gwylfa H a Mrs Doris Morgan;
Gareth, Hywel a'r teuluoedd – £25
er cof annwyl am y Parchg Arthur Ll. a Mrs Cavel Williams;
Geraint a'r teulu – £20
er cof annwyl am y Parchg. Clifford a Mrs Lillian Roberts;
Ann, Nia, Bethan a'r teulu – £25
er cof annwyl am Y Parchg. William O Thomas.

Anfonwyd cyfanswm o £214.27 yn enw Synod Cymru.

Gyda diolch am bob cyfraniad.

Cofiwch am wefan a thudalen *Facebook* Synod Cymru, lle cewch fwy o wybodaeth am weithgareddau a newyddion Gweithredu dros Blant

*Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan*



**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd.**

**EBRILL**
1 Môn ac Arfon
8 Dyffryn Clwyd
15 Y Cyngor Methodistaidd
22 Sul y Synod
29 Môn ac Arfon

**MAI**
6 Llanrhaeadr
13 Powys
20 Dyffryn Conwy
27 Gwyliau

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl

# *Bwyd i'r Meddwl*

## *gan Bet Holmes*



Penderfynais chwilio am fwydydd arbennig ar gyfer Sulgwyn y tro hwn, ac nid oedd rhaid i fi grwydro ymhell! Dros y ffin yn Swydd Gaerhirfryn, nid nepell o Preston, mae pentref o'r enw Goosnargh, sy'n enwog am "Goosnargh Cakes". Bisgedi yw'r rhain mewn gwirionedd, sydd yn cael eu gwerthu yn Swyddfa Post y pentref ar gyfer y Sulgwyn.

Mae'r rysáit hon yn gwneud rhyw 20 o fisgedi. Bydd angen:
225g (8 owns) menyn heb halen
125g (4 owns) o siwgwr mân melyn
350g (12 owns) blawd plaen
1 1/2 llwyaid te o hadau carwe (caraway seeds)

Cynheswch y ffwrn i 180C/350F/Nwy rhif 4, a seimiwch 2 astell bobi. Corddwch y menyn a'r siwgwr tan iddyn nhw droi yn ysgafn. Hidlwch y blawd drostynt ac ychwanegwch yr hadau carwe. Cymysgwch gyda llwy bren ac wedyn eich dwylo tan i'r toes fod yn llyfn ac yn barod i'w rolio. Rowliwch i drwch o ryw 1/4", ac wedyn torri mewn cylchau bach. Nawr rhowch nhw yn y ffrij i oeri am hanner awr, cyn eu rhoi yn y ffwrn i bobi am 15-20 munud, tan iddyn nhw fod yn frown euraidd. Tynnwch nhw o'r ffwrn, a thaenwch nhw gyda rhagor o siwgwr. Gadewch iddyn nhw oeri am ychydig ac wedyn rhowch nhw ar glwyd weiar.

Wel, clywaf chi yn gofyn, beth yw'r gwahaniaeth rhwng y "Goosnargh Cakes" a theisennau brau (shortbread) cyffredin? Yr ateb yw'r hadau carwe, y smotiau bach sydd yn rhoi blas arnyn nhw. Os mynnwch, fe allech chi feddwl am yr hadau carwe fel symbol o'r Ysbryd Glân, sydd yn gallu rhoi blas arbennig ar ein bywydau.

Bydd pob capel yn fy ardal i, Ceredigion, yn dod ynghyd yn Aberystwyth ar yr 20fed o Fai i ddathlu dyfodiad yr Ysbryd Glân trwy ymgynnull am Gymanfa Ganu, gyda lluniaeth i ddilyn. Ac ar y platiau bydd cacennau bach Goosnargh!

# TUDALEN Y PLANT



Pan gafodd Iesu Grist ei groeshoelio, roedd ei ffrindiau yn dorcalonnus. Ond yna digwyddodd rhywbeth rhyfeddol iawn, iawn – atgyfododd Iesu.

Ar y trydydd dydd ar ôl y croeshoelio, roedd dau o'i ddilynwyr – Cleopas a ffrind arall – yn cerdded o Jerwsalem i bentref Emaus, taith o ryw saith milltir. Roedd eu sgwrs yn ddigalon iawn. Pam oedd y fath bethau ofnadwy wedi digwydd?

Yna daeth Iesu ei hun atynt. Cydgerddodd â'r ddau, ond rhwystrwyd eu llygaid rhag ei adnabod.

Gofynnodd Iesu iddynt am beth roeddent yn siarad. Safodd y ddau ac edrych arno, eu digalondid yn eu hwynebau.


"Dwyt ti ddim wedi clywed?" medden nhw. "Mae Iesu y proffwyd, yr un wnaeth yr holl bethau rhyfeddol a dweud wrthym am Dduw, wedi cael ei groeshoelio. Roeddem ni'n meddwl mai ef oedd yr un fyddai'n achub pawb. Ac maen nhw'n methu cael hyd i'w gorff."

"Pam rydych chi'n ei chael hi mor anodd deall popeth ddywedodd y proffwydi?" meddai Iesu. Yna eglurodd beth roedd yr holl broffwydi o adeg Moses ymlaen wedi ei ddweud am y Meseia, a sut roedd y pethau amdano ef ei hun wedi eu hesbonio yn yr ysgrifau sanctaidd.

Dyma'r tri yn cyrraedd Emaus. Cymerodd Iesu arno ei fod am ddal i gerdded ymlaen, ond gofynnodd y ddau iddo aros, oherwydd roedd hi'n hwyr iawn.

Eisteddodd Iesu wrth y bwrdd gyda'r ddau ffrind. Cymerodd fara a'i fendithio, ei dorri a'i roi iddynt. Dyna pryd yr agorwyd eu llygaid fel eu bod yn ei adnabod. Ac fe ddiflannodd o'u golwg.

"Wrth gwrs!" meddai'r ddau wrth ei gilydd. "Roedd ein calonnau ar dân pan oedd o'n egluro pethau i ni!" Ac i ffwrdd â nhw, yr holl ffordd yn ôl i Jerwsalem i ddweud y newydd rhyfeddol wrth y lleill.



AMSER LLIWIO



www.freepik.com